Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | 30 Awst 2019 |
| | | Rhif Union: | 01824706141 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 10 MEDI 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 2 Gorffennaf 2019 (copi ynghlwm).

**6 CYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR DWYRAIN Y RHYL** (Tudalennau 19 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Peiriannydd Risg Llifogydd (copi ynghlwm) ar y cynigion am gynllun amddiffyn arfordir yn nwyrain y Rhyl.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 33 - 38)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) am waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/2019.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 39 - 44)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alan James (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon
Christine Marston
Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by the Chairman**

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Lleoliad/Location |
|---|---|---|
| 06/06/19 | Digwyddiad *Superkids*<br>Superkids event | Yr Wyddgrug / Mold |
| 06/06/19 | Dathliad Pen-blwydd yr *Young Dragons* yn 10 oed<br>10th Anniversary of Young Dragons | Prestatyn |
| 07/06/19 | Arddangosfa o waith a grëwyd yn *Superkids*<br>Exhibition of Work created at *Superkids* | Bodelwyddan |
| 08/06/19 | Garddwest Clwb Rotari Llangollen<br>Llangollen Rotary Club Fête | Llangollen |
| 15/06/19 | Seremoni Ailgysegru Bedd Milwr a Gosod Torch<br>Rededication of Soldier's Grave and Wreath Laying | Trefnant |
| 15/06/19 | Rali Flynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Clwyd<br>Clwyd Young Farmers Club Annual Rally | Rhuthun / Ruthin |
| 25/06/19 | Cyngerdd Agoriadol Gŵyl Gerddorol Ryngwladol Gogledd Cymru<br>Festival Launch Concert of the North Wales International Music Festival | Llanelwy / St. Asaph |
| 26/06/19 | Diwrnod y Lluoedd Arfog a Diwrnod Cenedlaethol Milwyr Wrth Gefn – Codi baneri<br>National Armed Forces and Reserves Day - Flag Raising | Rhuthun /.Ruthin |
| 04/07/19 | Agoriad swyddogol Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras<br>Official opening of Rhos Steet School and Ysgol Pen Barras | Rhuthun / Ruthin |
| 04/07/19 | Cyngerdd y nos - Dathliad Rhyngwladol Llangollen<br>Evening concert - Llangollen International Celebration | Llangollen |
| 04/07/19 | 2019 Sioe Fawr Gerddorol CCSDd<br>2019 DMC Musical Extravaganza<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended) | Y Rhyl / Rhyl |
| 07/07/19 | Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Sir y Fflint<br>Chairman of Flintshire's Civic Service | Llaneurgain / Northop |
| 07/07/19 | Gwasanaeth Dinesig Maer Wrecsam<br>Mayor of Wrexham's Civic Service<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended) | Wrecsam / Wrexham |

| | | |
|---|---|---|
| 07/07/19 | Dydd Sul Dinesig Maer Dinbych<br>Mayor of Denbigh's Civic Sunday | Dinbych / Denbigh |
| 12/07/19 | Seremoni Ddinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony | Rhuthun / Ruthin |
| 14/07/19 | Gwasanaeth Dinesig Maer Rhuthun<br>Mayor of Ruthin's Civic Service | Rhuthun / Ruthin |
| 14/07/19 | Gwasanaeth Dinesig Maer Y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Civic Service<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended) | Y Rhyl / Rhyl |
| 19/07/19 | Digwyddiadau Darllen yn Dda Dementia a Boots<br>Reading Well Dementia and Boots event | Dinbych / Denbigh |
| 21/07/19 | Gwasanaeth Dinesig y Cadeirydd<br>Chairman's Civic Service | Cefn Meiriadog |
| 22/07/19 | Sioe Frenhinol Cymru<br>Royal Welsh Show | Llanfair-ym-Muallt<br>/ Builth Wells |
| 24/07/19 | Digwyddiad Parc Bruton<br>Bruton Park Event | Y Rhyl / Rhyl |
| 27/07/19 | Cystadleuaeth Cneifio Ryngwladol<br>International Shearing Competition | Corwen |
| 29/07/19 | Noson Lên<br>Literary Evening | Dinbych / Denbigh |
| 15/08/19 | Sioe Dinbych a Fflint<br>Denbigh and Flint Show | Dinbych / Denbigh |
| 17/08/19 | Sioe Flodau Rhuthun<br>Ruthin Flower Show | Rhuthun / Ruthin |

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Hugh Evans, Bobby Feeley, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr AD Strategol (CR), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)
Ian Trigger – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones, Rachel Flynn, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Peter Scott, Glenn Swingler a/ac David Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol gydag Eitem 7 gan ei bod yn aelod o Greenpeace a Chyfeillion y Ddaear ers 40 o flynyddoedd.

Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol ag Eitem 9 hefyd gan ei bod yn ysgrifenyddes i Theatr Twm o'r Nant oherwydd roedd y theatr wedi derbyn cefnogaeth gan hamdden ar gyfer y cynllun 'Night Out – Noson Allan' a chymorth gan dîm technegol Theatr y Pafiliwn. Yn ogystal, roedd ei gŵr yn aelod o un o ganolfannau hamdden y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol gydag eitem 9. Mae'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Brynhyfryd ac mae'n defnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun yn ystod oriau'r ysgol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Mawrth 2019 a 25 Mai 2019 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2019.

Materion yn Codi:

Tudalen 12 (Eitem 7) – Holodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor am y sefyllfa bresennol ynglŷn â'r CDLl yn dilyn ailstrwythuro'r Cabinet.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans bod trafodaethau ar y gweill o ran pwy ddylai fod yn aelodau o'r Grŵp Cynllunio Strategol.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2019 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 30 Mai 2019.

Materion yn Codi:

Tudalen 17 (Eitem 4) – Holodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler a oedd yn ofynnol ailstrwythuro'r staff sy'n parhau i weithio gyda'r Cyngor.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei bod yn ofynnol gan y byddai newid yn y rheolwyr ar gyfer y staff sy'n parhau i weithio ar gyfer y cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 30 Mai 2019 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

**6 CWESTIWN GAN Y CYHOEDD**

Ar y pwynt hwn, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai tri chwestiwn yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

(i) Cyflwynodd Ms Gwyneth Ellis o Gynwyd y cwestiwn canlynol:

> "A yw'r Cyngor yn cydnabod y Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych ac yn ymdrechu i gydweithredu gyda'r cynghorau lleol yn unol â'r Siarter honno?"

Ymateb gan Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Tony Thomas:

“Rwyf wedi cysylltu'r wythnos ddiwethaf gyda'r aelod lleol ar gyfer Cynwyd ac rwy’n aros am ateb ond byddaf yn cysylltu â Chyngor Cymuned Cynwyd cyn gynted ag y byddaf wedi derbyn ateb.”

Yna, gofynnodd Ms Ellis gwestiwn atodol:

“Roeddwn i, fel Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Cynwyd, wedi anfon e-bost at y Cynghorydd Richard Mainon, gan mai ei bortffolio ef ydoedd ar y pryd, ond nid oeddwn wedi derbyn ymateb. Yn yr e-bost roeddwn yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor Sir, oherwydd nad ydym ni fel Cyngor Cymuned, wedi llwyddo i gyflogi Clerc newydd. Rydym wedi bod yn ceisio gwneud ers tair blynedd yn awr ac nid oes unrhyw un yn dangos diddordeb yn y rôl. Mae’n ei gwneud bron yn amhosibl i ni weithredu’n effeithiol.

Hoffwn ofyn i’r Cyngor, yn y Siarter, mae paragraff 6.1 yn nodi bod y Cyngor Cymuned yn dibynnu ar gefnogaeth broffesiynol gan eraill yn benodol, rydym yn dibynnu ar waith Clerc proffesiynol a rhywun i ofalu am ein gwefan.

Hoffwn ofyn yn unol â 6.1.2 y Siarter, a fyddai’r Cyngor Sir yn darparu cefnogaeth ymarferol i ni, i benodi Clerc newydd, a nes y byddwn yn penodi Clerc newydd eu bod yn sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cadw'n gywir a'n cynghori ar faterion cyfreithiol a gweithdrefnol, i gymryd cofnodion a gosod rhaglenni a chyhoeddi'r cofnodion hynny i'r mannau priodol gan gynnwys ar y we ac i gynnal y wefan.

Ymatebodd y Cynghorydd Thomas i'r cwestiwn atodol fel a ganlyn:

“Byddaf yn cysylltu â’r Prif Swyddog ynglŷn â hyn ac yn ymateb i chi’n fuan”.

(ii) Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas y cwestiwn canlynol ar ran y Cynghorydd Glenn Swingler a oedd yn methu â bod yn y cyfarfod:

“A oes modd i’r Aelod Arweiniol ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd ar ail fand rhaglen ysgolion y 21ain ganrif? Ar pa gam y gallwn ddisgwyl amlinelliad manwl o'r ysgolion newydd neu adnewyddu ysgolion".

Ymateb gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Cabinet Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd:

“Fe gyfeiriaf yn ôl at yr hyn a ddywedais ym mis Mawrth 2019. Bydd gan y Cyngor Llawn gynigion cwmpas a fydd yn cael eu cyflawni a'u cyflwyno

ym mis Medi 2019. Rydym yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni hynny. Bydd yn cael ei rannu gyda'r Cyngor yn gyntaf cyn i ni ymgynghori gyda'r ysgolion unigol yr effeithir arnynt yn yr ardal benodol".

(iii) Cododd y Cynghorydd Rhys Thomas y cwestiwn canlynol:

"Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gyllideb atodol ar 18 Mehefin 2019. Mae'n ymddangos y bydd oddeutu £20 miliwn o arian newydd ar gael i awdurdodau lleol Cymru. Bydd y gyllideb yn cael ei thrafod gan Gynulliad Cymru ar 9 Gorffennaf 2019. A oes modd i chi ddweud wrthym a oes gan Sir Ddinbych gynlluniau yn eu lle o ran sut y byddem yn defnyddio ein cyfran o'r arian ychwanegol a pha wasanaethau'r cyngor sy'n debygol o elwa o hynny?"

Dyma ymateb y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:

"er eglurder, roedd y cyhoeddiad ar 18 Mehefin 2019 yn gyllid cyfalaf ychwanegol o £85 miliwn ar draws Cymru. Roedd yr £85 miliwn wedi'i rannu'n fras o ran y prif faterion £50 miliwn (ffigyrau Cymru gyfan) ar gyfer tai cymdeithasol, £5 miliwn - cynnal a chadw priffyrdd, £10 miliwn ar gyfer rhyw fath o gronfa enillion y dyfodol ac £20 miliwn sy'n cael ei ddiffinio fel cefnogi cynlluniau cyfalaf awdurdodau lleol. Nid ydym wedi derbyn manylion eto felly nid ydym yn gwybod beth fydd y dyraniadau ac nid ydym yn gwybod beth fydd yr amodau grant.

O ran yr £20 miliwn i gefnogi cynlluniau cyfalaf awdurdod lleol, byddwn yn credu bod hynny'n golygu cynnydd yn ein grantiau wedi'u neilltuo er mwyn diwallu ein dyraniadau bloc.

Roedd cafeat i'r cyhoeddiad y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau priodol ar gyfer hyn sy'n awgrymu y byddai rhywfaint o neilltuo, ond nid ydym yn gwybod hyn eto. Pan fydd y cyllid yn cyrraedd, byddwn yn dilyn ein prosesau arferol.

O ran unrhyw grantiau sy'n benodol i wasanaeth bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r gwasanaeth penodol yn y modd arferol". .

## 7 RHYBUDD O GYNNIG

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol gan ei bod yn aelod o Greenpeace a Chyfeillion y Ddaear ers 40 o flynyddoedd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ei ran ei hun, y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor a'r Cynghorydd Joe Welch i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Rydym yn wynebu Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol.

Y gred ar draws y byd yw bod newid hinsawdd yn achosi perygl sylweddol i'n hiechyd, economi a'r amgylchedd ac yn bygwth lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae tystiolaeth wyddonol yn nodi'n glir fod gennym lai na 11 mlynedd i atal newid hinsawdd trychinebus. At hynny, eleni mae gennym y dystiolaeth amlycaf erioed fod colled bioamrywiaeth yn cynyddu a bod hyn yn bygwth systemau cynnal bywyd y blaned yr ydym oll yn dibynnu arnynt.

Mae natur yn dirywio'n ddifrifol, mae ein bioamrywiaeth a'n pridd yn dirywio neu'n cael eu diraddio. Rydym yn cynnal ein bywydau ein hunain, tra'n lleihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i gynnal eu bywydau hefyd. Nid yw hyn yn etifeddiaeth ddigonol i'w adael ar gyfer ein plant a'n wyrion a wyresau.

Mae dyfodol dynol ryw yn dibynnu ar arweinwyr dewr a mentrus heddiw i wneud y newidiadau gofynnol i ddiogelu'r amgylchedd, ar gyfer ein dyfodol ni a chenedlaethau sydd i ddod.

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

- Datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol ar unwaith
- Ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdod yn ddi-garbon net erbyn 2030 fan bellaf.
- Sefydlu grŵp tasg a gorffen i lunio cynllun clir o fewn 6 mis i gyflawni'r uchod, gan gynnwys dulliau o wella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.
- Galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n galluogi i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella bioamrywiaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gynorthwyo i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol hwn.

Cafwyd trafodaeth hynod o gadarnhaol gyda chefnogaeth unfrydol ar gyfer y Rhybudd o Gynnig.

Nodwyd bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys targed i leihau allyriadau carbon o 15% erbyn 2022. Roedd nifer o brosiectau wedi'u cynnal i leihau allyriadau carbon ac amddiffyn yr amgylchedd yn y sir.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi gosod targed bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn garbon niwtral erbyn 2030.

Felly, yn dilyn y bleidlais

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig bod Cyngor Sir Ddinbych yn:*

- *Datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol ar unwaith*
- *Ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdod yn ddi-garbon net erbyn 2030 fan bellaf.*
- *Sefydlu grŵp tasg a gorffen i lunio cynllun clir o fewn 6 (chwe) mis i gyflawni'r uchod, gan gynnwys dulliau o wella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.*

- *Galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n galluogi i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella bioamrywiaeth; a*
- *Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gynorthwyo i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol hwn.*

*yn cael ei gytuno'n unfrydol gan y Cyngor.*

**8 NEWIDIADAU I'R UWCH GYFLOGAU 2019**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer y Cyngor i gytuno ar y newidiadau arfaethedig i gyflog pedwar Pennaeth Gwasanaeth a fyddai'n ofynnol i hwyluso Cwmni Masnach Hamdden yr Awdurdod Lleol a gytunwyd gan y Cyngor Llawn ar 30 Mai 2019. Byddai'r newidiadau'n cael eu gweithredu ar ôl gweithredu Cwmni Masnach Hamdden yr Awdurdod Lleol (LATC).

Roedd sefydlu'r LATC yn creu cyfle i asesu dosbarthiad cyfrifoldebau ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor gyda'r nod o rannu'r rhain ymysg y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n weddill. Byddai hyn yn darparu arbedion o oddeutu £800,000 ar gyfer y Cyngor.

Gadawodd Pennaeth Cyllid y Cyngor ar ddiwedd mis Mehefin 2019 a byddai angen cytundeb bod cyflog y swydd yn cael ei hysbysebu gan adlewyrchu'r raddfa a'r dyletswyddau diwygiedig.

Roedd yr ailstrwythuro a nodwyd yn caniatáu dileu swydd Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai ac yn creu cyfle i wella synergedd rhwng rhai meysydd gwasanaeth allweddol.

Roedd rhesymau'r gwerthusiadau wedi'u darparu gan Kornferry Hay ac roedd y bedair swydd wedi sgorio dros 800 pwynt. Yn unol â'r strwythur graddio, fel y cytunwyd gan y Cyngor Llawn ar 10 Mai 2016, fel rhan o adolygiad gwreiddiol yr Uwch Arweinyddiaeth, roedd unrhyw swyddi a oedd yn sgorio dros 800 yn derbyn cyflog SLT 2. Felly, byddai'r ddau Bennaeth Gwasanaeth a oedd wedi sgorio llai na 800 ac yn derbyn cyflog SLT 1 yn cynyddu i SLT 2.

Roedd y swyddi hefyd wedi'u trafod gan Banel Tâl SLT a oedd wedi cytuno ag asesiad Kornferry Hay.

Yn unol â'r broses, roedd y cynnig wedi'i gyflwyno i Banel Adolygu Annibynnol Cymru i'w ystyried. Roeddent wedi ymateb gan nodi eu bod yn fodlon gyda'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd.

Yn dilyn trafodaethau, gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am egwyl i drafod gydag aelodau'r grŵp Llafur. Cytunwyd ar hyn gan bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**Ar yr adeg hon (11.15 a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.35am.**

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad. Felly, yn dilyn y bleidlais

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Llawn yn cytuno ag argymhellion Panel Tâl Arweinyddiaeth Uwch ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.*

**9 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU / SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN**

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol gan ei bod yn ysgrifenyddes i Theatr Twm o'r Nant oherwydd roedd y theatr wedi derbyn cefnogaeth gan hamdden ar gyfer y cynllun 'Night Out – Noson Allan' a chymorth gan dîm technegol Theatr y Pafiliwn. Yn ogystal, roedd ei gŵr yn aelod o un o ganolfannau hamdden y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol. Mae'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Brynhyfryd ac mae'n defnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun yn ystod oriau'r ysgol.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer drafft Erthyglau Cymdeithas a Chytundeb Aelodau mewn perthynas â Chwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant nad er elw yr Awdurdod Lleol fel model darparu amgen (ADM) ar gyfer darparu amrywiaeth o weithgareddau a swyddogaethau hamdden.

Roedd y Cyngor a'r Cabinet wedi cytuno i gefnogi creu Cwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant yr Awdurdod Lleol ar 30 Mai a 25 Mehefin yn y drefn honno. Dogfen gyfansoddiadol cwmni cyfyngedig drwy warant yw ei Erthyglau Cymdeithas sydd wedi'i gofrestru ar gyfer archwiliad cyhoeddus yn Nhŷ'r Cwmnïau (Erthyglau). Yr hyn a gynigwyd oedd mabwysiadu Erthyglau oedd yn seiliedig ar yr Erthyglau Enghreifftiol, gan gynnwys newidiadau yn benodol i ofynion y Dull Darparu Amgen, er mwyn gwarchod y Cyngor a rhoi rheolaeth iddo dros y cwmni. Yn ogystal â'r Erthyglau, roedd yr adroddiad yn sôn am Gytundeb Aelodau rhwng y Cyngor a'r Dull Darparu Amgen a oedd yn amlinellu nifer o faterion nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr Erthyglau.

Arweiniodd Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau drwy'r swyddogaethau pennaf a nodwyd yn yr Erthyglau a'r telerau a bennwyd yn y Cytundeb Aelodau. Byddai angen awdurdod dirprwyedig er mwyn cadarnhau dogfennau.

Yn ystod y drafodaeth, eglurodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd:

- yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn, byddai'r Cyngor yn monitro er mwyn sicrhau tryloywder o ran perfformiad ariannol;
- Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Medi, yn ceisio cadarnhad o aelodaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gan ei fod yn ymwneud â chyfansoddiad y cwmni newydd.

- Byddai gofyniad i'r Cwmni fabwysiadu holl bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys bod y Cwmni'n cydymffurfio â pholisi Cymraeg y Cyngor.

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Erthyglau Cymdeithas a Chytundeb Aelodau drafft fel y nodwyd yn Atodiadau'r adroddiad hwn mewn perthynas â Chwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant yr Awdurdod Lleol nad yw er elw;*

*(ii) Bod y Cyngor yn awdurdodi Bwrdd Prosiect ADM mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol ar gyfer Lles ac Annibyniaeth ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gytuno ar eiriad terfynol y dogfennau a nodwyd yn (i) uchod.*

## 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, yr Adroddiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Hwn oedd pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac roedd yn ymwneud â blynyddoedd calendr 2017 a 2018. Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Cyngor Llawn i hysbysu'r Aelodau ynglŷn â thueddiadau, materion mewn perthynas â chydymffurfiaeth gyda Chod Ymddygiad yr Aelodau'n gyffredinol ar draws y sir ac ar waith y Pwyllgor i gymell safonau ymddygiad ar lefel Sirol ac ar lefel Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned. Nid oedd yn bosibl cyflwyno adroddiad y llynedd, felly, roedd yr adroddiad yn ymdrin â chyfnod o ddwy flynedd.

Prif rôl y Pwyllgor Safonau oedd monitro cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Roedd yr holl Aelodau'n ymwybodol bod eu Cod yn seiliedig ar egwyddorion y dylai'r Aelodau ymddwyn yn unol â nhw yn seiliedig ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan ond yng Nghymru roedd 10 Egwyddor oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned. Nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio o aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn mynychu Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i arsylwi ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd. Yna rhoddir adborth yn y Pwyllgor Safonau.

Presenoldeb ar ran y Cyngor yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (y Fforwm). Roedd y Fforwm yn cynnwys chwe Chyngor Gogledd Cymru, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd y Fforwm yn cyfarfod i drafod buddion cyffredin ac roedd yr Ombwdsmon yn mynychu o bryd i'w gilydd. Roedd Ceredigion a Phowys ac Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin y Canolbarth wedi ymuno â'r Fforwm yn ddiweddar.

Diolchodd Mr Trigger i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith caled ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac am gynnal digwyddiadau hyfforddi hanfodol.

Ar y pwynt hwn, mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Mr Ian Trigger am ei ymrwymiad i'r gwaith fel Cadeirydd ac i aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu gwaith. Diolchodd hefyd i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.*

## 11 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018 - 19

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Adroddiad Adolygu Perfformiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w gymeradwyo, yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Roedd newidiadau diweddar yn y dulliau adrodd wedi arwain at y ddogfen dan sylw, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am chwarter 4 a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol, a gyflwynid ar wahân fel arfer. Byddai mesuryddion cenedlaethol yn cael eu hadrodd ar wahân pan fyddent ar gael.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau corfforaethol o bortffolio ehangach y Cyngor. Roedd hyn yn cydnabod bod gwasanaethau yn gwneud gwaith pwysig y tu allan i'r Cynllun Corfforaethol sydd o fudd i drigolion.

Esboniodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol bod y ddogfen yn dangos mor dda oedd y cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn, ond roedd hefyd yn adlewyrchu ar y cyfleoedd i wella a chymryd camau gweithredu priodol.

Arweiniodd y Cyngor drwy'r adroddiad a darparu gwybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed yn erbyn pob blaenoriaeth gorfforaethol.

Roedd y pum blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Tai – Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion;
- Clymu Cymunedau - Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da;
- Cymunedau gwydn - mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid;
- Amgylchedd - mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a
- Pobl ifanc - man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Roedd arolwg gofalwyr ar y gweill ac fe gadarnhawyd y byddai'r data sy'n cael ei gasglu'n cael ei ddefnyddio i lunio'r strategaeth er mwyn nodi anghenion ac i sicrhau y gellir cynllunio'r gwasanaeth priodol i gefnogi gofalwyr yn y dyfodol.
- Cadarnhawyd mai Sir Ddinbych oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio chwynladdwr heb lyswenwyn y gellir ei nodi drwy'r strategaeth amgylcheddol.
- Cadarnhawyd bod Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wedi bod yn cyfathrebu gyda phobl ifanc yn y sir i gael eu barn am gyfleoedd swyddi ac ati.
- Gallai problemau godi o derfynu’r ffurflen gais ar bapur ar gyfer bathodynnau glas.
  Roedd yn rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein. Byddai’n rhaid i rai ymgeiswyr ddefnyddio'r gwasanaethau llyfrgell i gyflwyno cais, ond nid oedd gan bob llyfrgell staff arbenigol i gynorthwyo. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhannu'r pryder gyda'r adran berthnasol.
- Roedd menter digartrefedd ar waith ac roedd gofalwyr ifanc yn cael cymorth i ganfod tai.
  Holwyd a oedd mynediad hawdd i lwybr at yr ysgol dai. Cadarnhaodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol y byddai’n siarad gyda’r adran berthnasol ac yn rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau er gwybodaeth.

Canmolodd y Prif Weithredwr y gwaith i gyflawni’r Cynllun Corfforaethol a mynegi ei hyder y byddai’r Cynllun Corfforaethol o fudd i breswylwyr y sir.

Canmolodd y Cadeirydd y gwaith a wnaed a diolchodd i Nicola Kneale, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Alan Smith ac Iolo McGregor am eu gwaith ar y Cynllun Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD-*** *yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018-19.*

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU

Oherwydd cyfyngiadau amser a'r posibilrwydd na fyddai cworwm i'r cyfarfod, cytunwyd y dylid gohirio Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol i gyfarfod y Cyngor ar 10 Medi 2019.

***PENDERFYNWYD*** *bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ohirio tan 10 Medi 2019.*

## 13 AMSERLEN Y PWYLLGORAU 2020

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol, y Cynghorydd Richard Mainon, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i alluogi’r Aelodau i gymeradwyo amserlen ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2020.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2020 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau

mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi’r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

Cafwyd trafodaeth fer a mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington ei siom i nodi nad oedd dim cyfarfodydd min nos wedi eu trefnu.

Diolchodd y  Cynghorydd Mainon i Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau am baratoi’r amserlen a chysylltu gyda swyddogion gan fod angen trefnu’n ofalus iawn.

Mynegodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler a’r aelodau eraill eu diolch i Bennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd, y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a’i dîm am eu holl ymdrechion a gwaith caled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2020.*

## 14 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhawyd bod eitemau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at gyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Medi 2019 fel a ganlyn:

- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor  a Briffio’r Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 10 Medi 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Aelod Arweiniol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Wayne Hope |
| **Teitl:** | Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad ynghylch cynnig am gynllun amddiffyn yr arfordir yn Nwyrain y Rhyl, a fydd yn darparu safon briodol o amddiffyniad rhag llifogydd ar gyfer oddeutu 1,650 eiddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r tebygrwydd o lifogydd difrifol yn fwy acíwt yn Nwyrain y Rhyl nag unrhyw leoliad arall yn Sir Ddinbych; dangosodd ymchwiliad i lifogydd 2013 y gallai eiddo ddioddef llifogydd yn ystod digwyddiad 1 mewn 20 mlynedd. Mae hyn yn golygu mai Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl yw'r cynllun amddiffyn arfordir â'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, bydd cost y prosiect, sydd wedi'i amcangyfrif fel £27.5m ar hyn o bryd, yn rhoi baich refeniw ychwanegol ar y Cyngor. Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r goblygiadau refeniw posib o adeiladu'r cynllun (gan gymryd fod y cyngor yn penderfynu defnyddio'r £2m sydd eisoes wedi'i gytuno arno ar gyfer Dwyrain Rhyl yn 20/21) ac yn seiliedig ar y cyfraddau benthyca (isel) presennol – pe bai'r cyfraddau yn codi yna byddai'r baich ariannol yn cynyddu:

| 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| £29k | £176k | £81k | **£286k** |

2.2 Oherwydd lefel yr ymrwymiad ariannol sy'n ofynnol o'r cyngor, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r prosiect i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu'r cam adeiladu. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ar 30 Gorffennaf 2019.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Les (a atodwyd fel Atodiad 1).

3.2 Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig i symud y cynllun ymlaen at y cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllido cymorth grant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

3.3 Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir[1] i gymryd cyfrifoldeb am y cynllun ar yr amod fod cost y targed terfynol ddim yn fwy na £27.5m.

Dylid dod a'r prosiect yn ôl at y Cyngor am ystyriaeth bellach os bydd y gost darged terfynol yn fwy na £27.5 miliwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae ardal dwyrain y Rhyl ger Garford Road wedi dioddef yn sylweddol o lifogydd am gyfnod hir yn Rhagfyr 2013, gyda llifogydd yn effeithio 140 eiddo gyda channoedd o breswylwyr wedi gorfod gadael eu cartrefi. Roedd y storm wedi atgoffa pobl o ba mor fregus yw'r amddiffynfeydd arfordirol yn y lleoliad hwn a'r boblogaeth sy'n byw tu ôl iddyn nhw. Roedd archwiliadau yn sgil y digwyddiad wedi tynnu sylw bod safon yr amddiffyniad a geir gyda'r amddiffynfeydd presennol yn is na'r hyn a ystyrir yn dderbyniol i ardal drefol gyda phoblogaeth uchel. Hefyd, mae'r traeth sydd wedi erydu dros nifer o flynyddoedd wedi cynyddu'r risg i'r amddiffynfeydd presennol i fethu yn sylweddol sy'n gallu arwain ar doriad mewn amddiffynfeydd arfordirol a fyddai'n golygu llifogydd i fwy na 1,600 eiddo mewn llanw uchel. Mae effeithiau newid hinsawdd, hynny yw bod lefel y môr yn codi a mwy o stormydd yn golygu y byddai llifogydd arfordirol yn y lleoliad hwn yn digwydd yn fwy aml ac yn y pendraw yn digwydd bob blwyddyn. Bydd y cynllun yn lleihau'r perygl o lifogydd arfordirol yn sylweddol i oddeutu 1,650 eiddo yn Nwyrain y Rhyl ac yn cynnig amddiffynfa yn erbyn storm arfordirol o 1 mewn 200 o flynyddoedd, gyda lwfans ychwanegol ar gyfer effeithiau newid hinsawdd (codiad yn lefel y môr a mwy o stormydd) hyd at 80 o flynyddoedd.

4.2 Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys gosod 128,000 tunnell o amddiffynfeydd meini o flaen yr amddiffynfeydd môr presennol, yn ogystal â 600 metr o wal a phromenâd a fydd yn amddiffyn yn erbyn y môr. Byddwn hefyd yn gwella tri mynediad i lawr i'r môr. Y bwriad yw dechrau ar y gwaith adeiladu yn Ebrill 2020 gyda'r gwaith yn cymryd oddeutu 2 flynedd a hanner i'r gwblhau. Bydd cyflwyniad byr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 10 Medi 2019, gan gynnwys argraff arlunydd o'r cynllun wedi'i gwblhau.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Cyngor yn egluro telerau'r cymorth grant ar gyfer y cam adeiladu o'r cynllun, hynny yw, bod y cynllun yn cael ei ariannu yn defnyddio model Menter Benthyca Llywodraeth Cymru. Mae'r radd grant ar gyfer y gwaith amddiffyniad arfordirol yn 75%, ac felly byddai'r prosiect yn cael ei ariannu yn gyfan gwbl gan y Cyngor, gyda 75% o'r costau yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 25 mlynedd trwy'r Grant Cynnal Refeniw.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon yn ddiweddar ynghylch y cynnydd yng nghostau cynlluniau amddiffynfeydd arfordirol a llifogydd yng Nghymru o'i gymharu â'r grant a gymeradwywyd yn wreiddiol. Bydd LlC felly ddim yn ystyried ceisiadau pellach ar gyfer mwy o grant lle mae'r costau wedi cynyddu'n uwch na'r swm grant a gytunwyd arno. Felly er mwyn cyflawni sicrwydd cost ddigonol ar gyfer prosiect Dwyrain y Rhyl bu'n rhaid penderfynu caffael camau dylunio ac adeiladu'r prosiect yn defnyddio Fframwaith Caffael Sector Cyhoeddus Scape. Yn Awst 2016, cafodd cytundeb cyflawni ei wneud gyda Phartner y Fframwaith,

Balfour Beatty. O ganlyniad i drafod â'r contractwr yn ystod y camau cynnar, mae hyder bod modd cyflawni'r prosiect a chadw at yr amcan gost bresennol. Byddai'r cyfnod adeiladu rhwng Ebrill 2020 a Rhagfyr 2022.

4.5 Mae'r Fframwaith Scape yn cefnogi'r defnydd o gadwyni cyflenwi lleol. Mae hynny'n cael ei reoli trwy 'Siarter Cadwyn Gyflenwi' ac yn cael ei asesu yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Er enghraifft, dylai o leiaf 40% o wariant y prosiect fod o fewn radiws 20 milltir a 75% o fewn radiws 40 milltir. Mae Balfour Beatty wedi gweithio'n sylweddol gydag isgontractwyr a chyflenwyr lleol, a dim ond yn mynd ymhellach i ffwrdd pan nad oes adnoddau ar gael yn lleol neu'n methu â darparu gwerth am arian.

4.6 Mae'r cynllun wedi derbyn caniatâd cynllunio (19 Gorffennaf 2019) a thrwydded forol o Gyfoeth Naturiol Cymru (5 Gorffennaf 2019). Mae Ystad Y Goron wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau i'r prosiect.

4.7 Mae'r prosiect i'w gael yn Uned Polisi 11a 4.1 o'r Cynllun Rheoli Traethlin. Y polisi ar gyfer y lleoliad hwn dros y 100 mlynedd nesaf yw 'amddiffyn y llinell bresennol', ac mae'r prosiect yn llwyr gefnogi hynny.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi uchelgais y Cyngor i ddarparu amgylchedd deniadol ac wedi'i ddiogelu i'w breswylwyr, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Lleihau'r risg o lifogydd i gartrefi a busnesau gan reoli risg o lifogydd yn effeithiol, gan gynnwys buddsoddi mewn cynlluniau llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol, yn gallu chwarae rôl sylweddol wrth gyflawni'r uchelgais hwn. Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl wedi'i nodi'n arbennig fel uchelgais y Cynllun Corfforaethol presennol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amcangyfrifir mai cost y cynllun fydd £27.5 miliwn.

6.2 Er bod y cynllun yn gymwys am gyllid grant LlC, byddai disgwyl i'r Cyngor ariannu'r cyfanswm cyfan, gyda 75% o'r gost yn golygu benthyca a fyddai'n cael ei ad-dalu i'r cyngor yn flynyddol trwy'r Grant Cynnal Refeniw. O ystyried maint y cynllun, mae'n debyg byddai'n rhaid i'r cyngor fenthyca'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn, er mae £2m o gyllid cyffredinol wedi ei glustnodi'n barod ar gyfer y cynllun.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o lifogydd yn nwyrain y Rhyl. Drwy gyflawni'r nod yn llawn bydd yn golygu Sir Ddinbych fwy ffyniannus, gwydn, iach a chydradd sy'n dangos cyfrifoldeb byd-eang.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae’r Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl arfaethedig wedi’i ystyried eisoes, a’i gefnogi gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Cabinet a’r Grŵp Buddsoddi Strategol. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio yng Ngorsaf Dân y Rhyl yn Hydref 2018 a Thachwedd 2018. Bu ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a chyrff statudol trwy brosesau Cynllunio a Thrwyddedu Morol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Os cymeradwyir y cynllun byddai’n golygu ymrwymiad ariannol sylweddol gan y cyngor. Mae darpariaeth ariannol o gyfraniad y cyngor i’r cynllun hwn yn oddeutu £2m sydd yn bodoli o fewn y cynllun cyfalaf yn seiliedig ar amcan gost gynharach oedd yn llawer iawn is. Mae’r cynllun sy’n cael ei gynnig rŵan yn llawer mwy o ran yr ochr ariannol ac yn golygu cyfraniad gan y cyngor o £6.87m. Model benthyca Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau o’r fath yw cael y cynghorau i fenthyca’r arian i dalu’r cynllun yn ei gyfanrwydd ac yna i’r llywodraeth ad-dalu 75% o’r gost flynyddol o fenthyca i’r cynghorau trwy’r Grant Cynnal Refeniw. Cost refeniw i'r cyngor fenthyca cyfran (o gymryd ei fod yn llai gan fod £2m wedi’i roi i un ochr yn barod) fyddai oddeutu £29k yn 2020/21 gan godi i £250k yn 2021/22 a chynnydd pellach i £286k yn 2022/23. Bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar swm terfynol y cytundeb a chyfraddau llog ar y pryd. Felly drwy gymeradwyo i’r cynllun fynd yn ei flaen byddai’r **cyngor** yn ymrwymo i bwysau ariannol ychwanegol yn y cyfansymiau y nodir uchod o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Drwy gymryd bod y sefyllfa cyllideb refeniw ddim yn gwella erbyn hynny byddai felly yn cynyddu’r arbedion neu doriadau y bydd yn rhaid i’r cyngor eu gwneud ym mhob un o'r blynyddoedd hynny.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg mwyaf sylweddol yn ymwneud â’r prosiect yw bod telerau benthyciad LIC yn golygu baich refeniw hirdymor i’r Cyngor (25 mlynedd) a fyddai’n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau eraill. Hefyd, fel y nodir ym mharagraff 4.4, mae yna risg na fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu’r grant i dalu am unrhyw gynnydd mewn costau yn ystod y gwaith adeiladu. Mae’r risg wedi cael ei leihau drwy ddewis opsiwn caffael sydd wedi golygu sicrwydd cost o lefel uchel.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Amddiffyn yr Arfordir 1949.
Deddf Draenio Tir 1991
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

# East Rhyl Coastal Defence Scheme

### Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

| | |
|---|---|
| Assessment Number: | 239 |
| Brief description: | Coastal defence works at east Rhyl to reduce the risk of flooding and coastal erosion. |
| Date Completed: | 05/05/2017 15:09:15 Version: 1 |
| Completed By: | Wayne Hope |
| Responsible Service: | Highways & Environmental Services |
| Localities affected by the proposal: | Rhyl, |

# IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

**Score for the sustainability of the approach**


Could some small changes in your thinking produce a better result?

(3 out of 4 stars)

Actual score: 23/ 24.

**Summary of impact**

Wellbeing Goals




| | |
|---|---|
| A prosperous Denbighshire | Positive |
| A resilient Denbighshire | Positive |
| A healthier Denbighshire | Positive |
| A more equal Denbighshire | Positive |
| A Denbighshire of cohesive communities | Positive |
| A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language | Neutral |
| A globally responsible Denbighshire | Positive |

**Main conclusions**

The aim of the project is to reduce flood risk in east Rhyl. Provided this aim is fulfilled, the result will be a more prosperous, resilient, healthy, equal and globally responsible Denbighshire.

# THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

## A prosperous Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | The current and ongoing risk of flooding of properties has a significant negative impact on the prosperity of the county, as demonstrated by the floods that affected the region in 2012 and 2013. Therefore, the project will have a positive impact. |

**Positive consequences identified:**

Reducing the risk of flooding will reduce the impacts that flooding has in relation to post flooding clear up operations, including repairs and refurbishment of properties.
Flood risk is understood to have a negative impact on the economic prosperity of communities, Therefore, reducing flood risk will have a positive impact.
The project involves heavy civil engineering work which will provide an opportunity for local employment in that sector. Reduced flood risk will encourage potential future employers to invest in the area.
Coastal engineering is a specialism and the project has the potential to enable to development of local skills in this field.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

By developing a scheme that protects as many properties as possible to the highest economically achievable standard .

## A resilient Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | The project will make east Rhyl more resilient to future flood events. |

**Positive consequences identified:**

The project will be carried out in a way that ensures that are munimal negative impacts on the natural environment.
There may be opportunities to improve biodiversity in the built environment.
Flooding of properties creates a large amount of contaminated, non-recyclable waste. The project will reduce this likelihood.
Post flood clear up operations use a considerable amount of energy/fuel.
There are strong links between flooding and climate change (sea level rise). The project will draw these issues to the attention of Denbighshire residents.
The project will reduce the likelihood of flooding in east Rhyl.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

Through consultation with the Council's Countryside Service team and Natural Resources Wales.

## A healthier Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | The project is likely to result in improved opportunities for beach based leisure activities and will have a beneficial impact on the mental well-being of residents currently at risk of flooding. |

**Positive consequences identified:**

The existing beach at this location is occasionally stripped of sand due to coastal erosion. The project should reduce this likelihood and will conserve a sandy beach.
There's an opportunity to improve the quality of the existing beach at east Rhyl, which will encourage greater use by residents and tourists.
Peoples concerns and fears of being flooded have a significant impact on their emotional and mental well-being. The project will significantly reduce this likelihood.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

By working with local residents and community groups as the project develops to ensure that residents fears and concerns are recognised and addressed,

## A more equal Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | The project will have the greatest positive impact ohn the most vulnerable members of the community. |

**Positive consequences identified:**

People with protected characteristics are our most vulnerable residents during a flood event. Reducing the risk of flooding will improve their well-being.
One of the consequences of flooding is high insurance costs, which could result in poverty. The project could make properties cheaper to insure.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A Denbighshire of cohesive communities

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | Reducing flood risk will improve the strength and long term viability of the community. |

**Positive consequences identified:**

Following previous flood events, crime e.g., burglary, has been an issue during the recovery phase. Reducing the likelihood of flooding will have a positive impact.
There is already a strong community in east Rhyl, with a good knowledge of flood risk. The community will be engaged with as the project develops.
There is an opportunity to enhance the appearance of the area, although the construction of an offshore breakwater could be controversial in terms of its visual impact.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A globally responsible Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | The project will maximise the use of the local supply chain, including employment, skills and materials. |

**Positive consequences identified:**

It's likely that the project will maximise the use of the local supply chain.
Procurement will be carried out with due cognisance of human rights law.

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

Liaise with colleagues in procurement and ensure that the Council's policies are adhered to.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 10 Medi 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn ar waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/19

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I hysbysu'r holl Aelodau am waith y Pwyllgor.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cael ei ailenwi'n Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

4. **Manylion yr adroddiad**

4.1 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyniad statudol ar y Cyngor i fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw i adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr Awdurdod, rhoi adroddiadau ac argymhellion ynghylch materion ariannol yr Awdurdod, adolygu ac asesu trefniannau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, a darparu adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniannau hynny. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniannau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod, ac adolygu datganiadau ariannol a baratoir gan yr Awdurdod. Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw'r Cyfansoddiad dan arolwg.

4.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn fod aelodaeth y Pwyllgor wedi ei ffurfio o chwe Aelod Etholedig ar sail wleidyddol gytbwys. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Mae gofyniad statudol i gael o leiaf un aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor a'r aelod lleyg presennol yw Mr. Paul Whitham.

4.3 Mynychir pob cyfarfod Pwyllgor gan Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor neu gynrychiolwyr ar eu cyfer. Yn ychwanegol at hynny, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru.

4.4 Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae’r Pwyllgor wedi derbyn nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu. Mae’r rhain yn cynnwys:

4.4.1 Adroddiad Datganiad Llywodraethu Blynyddol – mae’r adroddiad hwn yn darparu adroddiad hunanasesu ar lywodraethu a threfniannau gwelliant y Cyngor ar gyfer 2017-18, sydd yn cynnwys ‘datganiad llywodraethu blynyddol’ y Cyngor. Nid oedd unrhyw broblemau llywodraethu sylweddol i adrodd arnynt eleni. Cynhwyswyd unrhyw faterion o lai o bwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliant Llywodraethu a gaiff ei fonitro gan y Pwyllgor.

4.4.2 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol – dyma adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn darparu sicrwydd i’r Pwyllgor fod damwiniau a digewyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl a’u monitro; y cynllunnir gweithgaredd yn unol â gwybodaeth a ddarperir gan ddadansoddiad o’r bylchau a’r peryglon gwasanaeth; ac y darperir hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae’r asesiadau cyffredinol o ddull Cyngor Sir Ddinbych o weithredu systemau Iechyd a Diogelwch ac o’r modd y mae cyflogeion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ill dau yn cyrraedd yswiriant canolig (melyn) Golyga hyn fod systemau rheoli Iechyd a Diogelwch ar y cyfan yn cael eu datblygu a’u cofnodi. Ar y cyfan, nodir a rheolir peryglon sylweddol er mwyn lleihau risg. Ar y cyfan, mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli Iechyd a Diogelwch.

4.4.3 Adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth – Mae gan yr Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth gyfrifoldeb penodol i sicrhau y rheolir gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn unol â deddfwriaeth. Mae’r adroddiad hwn yn darparu Aelodau â gwybodaeth o ran unrhyw achos o dorri gofynion diogelu data a allai fod wedi digwydd ac a oes unrhyw fater neu duedd sy’n gofyn am gamau gweithredu pellach. Mae’r adroddiad yn nodi'r data ystadegol sy’n ymwneud â cheisiadau am wybodaeth o dan y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a nifer y cwynion a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni chafwyd achos sylweddol o dorri rheolau data yn ystod y cyfnod adrodd. Cafwyd dau achos bychan o dorri rheolau data a oedd yn ymwneud â chyfeiriad anghywir ar ohebiaeth. Ymchwiliwyd i’r ddau achos, ond ni ystyriwyd yr un o’r ddau yn ddigon difrifol i’w hadrodd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.4.4 Adroddiad Blynyddol Rhannu Pryderon – mae Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor yn gofyn fod adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu i’r Cyngor ar niferoedd a chanlyniadau pryderon a godwyd o dan y polisi, gan adrodd ar unrhyw dueddiadau neu faterion sydd yn golygu bod angen cymryd camau pellach. Lleisiwyd dau bryder o dan y polisi yn ystod y cyfnod adrodd a oedd yn deillio o feysydd gwahanol ac yn wahanol o ran eu natur. Nid oedd yn ymddangos bod cysylltiad rhwng y pryderon hyn nac unrhyw thema sylfaenol yr oedd rhaid mynd i’r afael â hi.

4.5 Mae’r Pwyllgor hefyd yn cynnwys nifer o adroddiadau blynyddol yn ymwneud â materion ariannol. Mae’r rhain yn cynnwys:

4.5.1 Datganiad Cyfrifon – Yn flynyddol, mae gofyn i’r Pwyllgor gymeradwyo Datganiadau Cyfrifon y Cyngor fel y gall Cadeirydd y Pwyllgor a’r Swyddog

Adran 151 eu llofnodi a'u cadarnhau. Mae'r cyfrifon yn cynnwys toreth o wybodaeth, ac felly cyflwynir drafft i'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyn toriad yr haf, gan gyflwyno'r datganiad cyfrifon terfynol i'w gymeradwyo ym mis Medi bob blwyddyn er mwyn sicrhau cyfle digonol i'r Pwyllgor archwilio a chraffu ar y ddogfennaeth. Cymeradwywyd y cyfrifon.

4.5.2 Rheoli Trysorlys – Mae'r Pwyllgor yn derbyn dau adroddiad ar swyddogaethau rheoli trysorlys y Cyngor yn flynyddol. Mae'r adroddiadau yn cyflwyno manylion am gyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiadau hefyd yn delio â goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys, ac yn nodi cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

4.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn Adroddiadau Rheoleiddio Allanol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiadau canlynol:

4.6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor a'r Cyngor Llawn ac mae'n grynodeb o waith archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys astudiaethau ar Graffu, Adolygiad Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth yn ymwneud â Thai ac Arolygiad Estyn. Mae'r adroddiad ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch y Cyngor ac nid yw'n cynnwys unrhyw argymhellion sylweddol ar gyfer newid. Cyflwynwyd chwech 'cynnig ar gyfer gwelliant' i'r Cyngor ynghyd â'r gweithredoedd ynghlwm â phob un ohonynt.

4.6.2 Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - derbyniodd y Pwyllgor lythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Prif negeseuon y llythyr hwn oedd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a defnydd adnoddau, bod Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol mewn lle i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac nad oedd ei waith hyd yma ar ardystio hawliadau grantiau a ffurflenni wedi nodi problemau sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2018-19 neu'r systemau ariannol allweddol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau ar raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

4.6.3 Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol – derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar drefniadau Craffu'r Cyngor fel rhan o astudiaeth genedlaethol. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn dda i heriau presennol, fodd bynnag gallai gallu cyfyngedig i gefnogi craffu atal cynnydd yn y dyfodol ac mae cwmpas i aelodau Cabinet gyfrannu 'n fwy gweithredol at drafodaethau craffu.

4.6.4 Defnydd Data Llywodraeth Leol – derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ddefnydd data gan y Cyngor fel rhan o astudiaeth genedlaethol. Yn ôl yr adroddiad, mae gan y Cyngor y sylfeini mewn lle i wneud defnydd gwell o ddata ond rhaid gwella sut y mae data yn cael ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r

rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Awgrymodd yr adroddiad – byddai datblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data o gymorth i ymestyn manteision y penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth. Byddai diweddaru protocolau rhannu data a’u cyfathrebu o gymorth i sicrhau bod rheolwyr yn gwybod pryd a beth maent yn cael ei rannu, sydd o gymorth i osgoi lefelau anghymesur o risg wrth rannu data. Bydd mapio staff sy’n gweithio i ddadansoddi a rheoli data er mwyn adeiladu a datblygu capasiti defnydd data a datblygu ei gapasiti o ran dadansoddi data o fewn adnoddau presennol, o gymorth i’r Cyngor sefydlu'r arfer o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata a chreu mewnwelediad gwell i alw cwsmeriaid am wasanaethau.

4.7 Mae’r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Prif Archwilydd Mewnol ar y cynnydd a wneir ar gyflawni gofynion y Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwyir gan y Pwyllgor. Mae aelodau’r Pwyllgor hefyd yn derbyn copïau o adroddiadau archwilio mewnol. Caiff yr adroddiadau hynny sydd ag yswiriant “isel” eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn cyfarfod, a chaiff y cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael ag unrhyw bryderon eu craffu a’u monitro gan y Pwyllgor. Mae adroddiadau archwilio y mae’r Pwyllgor wedi eu hystyried neu wedi monitro eu cynlluniau gweithredu yn ystod y cyfnod dan sylw yn cynnwys Iechyd a Diogelwch mewn ysgolion, Cyfleusterau Cyhoeddus, Rheoli Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif, Gwasanaeth Cofrestru ac Uned Gaffael ar y Cyd.

4.8 Mae’r Pwyllgor hefyd wedi cynnal hunanasesiad o’i berfformiad ei hun a’i gymharu â’r arfer orau bresennol. Gwnaed yr asesiad hwn yn erbyn rhestr wirio o ganllaw’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) “Pwyllgorau Archwilio – Canllaw Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a’r Heddlu”.

Nid oes unrhyw faes sylweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth wedi’i nodi yn y swyddogaethau craidd a ddisgwylir gan bwyllgorau archwilio na’r swyddogaethau ehangach, fodd bynnag, nodwyd rhai amrywiaethau a diweddarwyd y cylch gorchwyl yn unol â hynny. Tynnodd yr ymatebion hunanasesiad sylw at yr anghenion o ran hyfforddiant, sydd bellach yn cael ei drefnu gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru ar gyfer y Cadeirydd ac yn fewnol ar gyfer holl aelodau’r pwyllgor.

4.9 Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried ei enw fel rhan o'r asesiad hwn ac wedi dod i'r casgliad y dylai'r enw gynnwys cyfeiriad at y swyddogaeth bwysig o fod yn Bwyllgor Archwilio'r Cyngor fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylid ei alw'n Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwaith y Pwyllgor wrth graffu ar reolaethau materion ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor yn y gwaith o gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gynnig ond yn hytrach mae'n adroddiad ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, nid oes angen unrhyw asesiad effaith.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn a gwneud sylwadau ar ddrafft o'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn elfen hollbwysig o fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Mae'n bwysig bod gan y Cyngor bwyllgor dynodedig i roi ystyriaeth briodol i adroddiadau, polisïau a gweithdrefnau ariannol a rheoliadol. O safbwynt cyllid, mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o graffu ar Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor a'i gymeradwyo, ac ar y gwaith o graffu ar weithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor fel rhan o'i rôl yn argymell Strategaeth Flynyddol y Trysorlys i'r Cyngor.

10. **Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg o beidio â chael Llywodraethu Corfforaethol neu Bwyllgor Archwilio effeithiol yw nad oes trosolwg o lywodraethu corfforaethol y Cyngor, sydd yn rhan allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau o ran darparu gwasanaethau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

| Cyfarfod | Eitem (Disgrifiad / Teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Angen Penderfyniad y Cyngor (oes/nac oes) | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| **15 Hydref 2019** | 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu | Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor | Oes | Steve Price / Rhian Evans |
| | 2 | Adolygu dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio | Ystyried adolygiad statudol o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio Sir Ddinbych. | Oes | Y Cynghorydd Richard Mainon / Steve Price / Gareth Evans |
| | 3 | Gweithredu Model Darparu Amgen (MDA) ar gyfer amrywiol weithgareddau a swyddogaethau cysylltiedig â hamdden | Ystyried a chymeradwyo aelodaeth y bwrdd llywodraethu strategol a bwrdd cwmni masnachu'r awdurdod lleol | Oes | Y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill / Graham Boase / Sian Lloyd Price |
| | | | | | |
| **3 Rhagfyr 2019** | 1 | Defnyddio Plastig | Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Craffu ar sut y gallai'r Cyngor leihau'r defnydd o blastig mewn modd ymarferol a chynaliadwy. | Oes | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad/Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen<br>Graham Boase/Rhian Evans |
| | | | | | |
| **28 Ionawr 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| **25 Chwefror 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **31 Mawrth 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| **12 Mai 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **7 Gorffennaf 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **8 Medi 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **13 Hydref 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **8 Rhagfyr 2020** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |



## EITEMAU’R DYFODOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytundeb Llywodraethu 2 Cynnig Twf Gogledd | Cymeradwyo’r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â gweithredu’r fargen dwf. | Y Cynghorydd Hugh Evans / Graham Boase / Gary Williams | **I'w gadarnhau** |

***Nodyn ar gyfer Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau'r Cyngor Llawn***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | *Hydref 2019* | ***1 Hydref 2019*** | *Rhagfyr 2019* | ***19 Tachwedd 2019*** |
| *Ionawr 2020* | ***14 Ionawr 2020*** | *Chwefror 2020* | ***11 Chwefror 2020*** | *Mawrth 2020* | ***17 Mawrth 2020*** |
| *Mai 2020* | ***28 Ebrill 2020*** | *Gorffennaf 2020* | ***23 Mehefin 2020*** | *Medi 2020* | ***24 Awst 2020*** |
| *Hydref 2020* | ***29 Medi 2020*** | *Rhagfyr 2020* | ***24 Tachwedd 2020*** | | |

Diweddarwyd ar 16/8/2019 SLW

Cabinet Forward Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cyfarfod Briffio ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor

| Cyfarfod | Eitem (Disgrifiad / Teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **11 Tachwedd 2019** | 1 | Strategaeth Twristiaeth | | Y Cynghorydd Hugh Evans / Liz Grieve |
| | 2 | Tai: Briffio ar y Rhaglen Datblygu Tai Fforddiadwy | Bydd y briffio yn cynnwys Tai Cymdeithasol, Tai Fforddiadwy (perchnogaeth tŷ costau isel / rhent canolradd) a datblygiadau eraill megis cytundebau a.106. | Y Cynghorydd Tony Thomas / Angela Loftus |
| | 3 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Heddlu Gogledd Cymru | ‚Ar gais Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, y wybodaeth ddiweddaraf am faterion plismona yn Sir Ddinbych gan gynnwys 'llinellau sirol'. | Y Cynghorydd Mark Young / Steve Price |
| **9 Mawrth 2020** | 1 | | | |
| | 2 | | | |
| | | | | |
| **8 Mehefin 2020** | 1 | | | |
| | 2 | | | |
| | | | | |
| **9 Tachwedd 2020** | 1 | | | |
| | 2 | | | |
| | | | | |

Diweddarwyd 16/08/2019 - SP

Council Briefing Forward Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag